Dyddiad cyhoeddi Tachwedd 2007

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin chwyrnu drwy osod mewnblaniadau yn nho'r geg

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir gosod mewnblaniadau yn nho'r geg yn y GIG i drin pobl sy'n chwyrnu. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae'r gair 'triniaeth' yn golygu unrhyw lawfeddygaeth, prawf neu driniaeth sy'n golygu mynd i mewn i'r corff drwy'r croen, cyhyr, gwythïen neu rydweli, neu geudod y corff. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Ceir tystiolaeth i ddangos bod y driniaeth hon yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd i ddweud p'un a yw'n gweithio ai peidio. Mae hyn oherwydd mai dim ond ar niferoedd bach o bobl yr edrychodd yr astudiaethau sydd ar gael, ac ni wnaethant gymharu'r driniaeth yn uniongyrchol â thriniaethau eraill. Am y rheswm hwn, mae NICE wedi dweud mai dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil (a elwir yn dreial clinigol hefyd) y dylai'r driniaeth hon gael ei chyflawni i gasglu rhagor o wybodaeth.

Mae NICE wedi dweud y dylai'r astudiaethau ymchwil gynnwys manylion personol am gleifion sydd wedi cael y driniaeth. Dylai'r astudiaethau hyn nodi'r hyn sy'n digwydd ar ôl y driniaeth hefyd, o safbwynt meddygol ac ansawdd bywyd.

### Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi dweud nad yw wedi gweld unrhyw dystiolaeth ynglŷn â defnyddio'r driniaeth hon mewn plant.

*Efallai nad honyw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer chwyrnu. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

## Trin chwyrnu drwy osod mewnblaniadau yn nho'r geg

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Gall chwyrnu amharu ar gwsg ac effeithio ar gydberthnasau gydag eraill. Sain chwyrnu yw sain y daflod feddal a rhannau eraill o geg, trwyn a gwddf unigolyn yn dirgrynu (y daflod feddal yw rhan gefn to'r geg).

Y driniaeth safonol ar gyfer chwyrnu yw newid ffordd o fyw (er enghraifft, colli pwysau, rhoi'r gorau i ysmygu, newid safle cysgu, ac osgoi alcohol a thabledi cwsg).

Mae NICE wedi edrych ar driniaeth a elwir yn fewnblaniadau taflod feddal ar gyfer chwyrnu syml. Yn y driniaeth hon gosodir mewnblaniadau yn y daflod feddal o dan anesthetig lleol. Nod y driniaeth yw gwneud y daflod feddal yn llai hyblyg a llai tebygol o ddirgrynu.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio i'w argymell at ddefnydd cyffredinol yn y GIG.

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi. Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy'n cael y driniaeth hon yn y DU. Caiff y manylion hyn eu cadw'n gyfrinachol ac ni fyddant yn cynnwys enwau cleifion. Dim ond i weld pa mor ddiogel yw'r driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio y defnyddir y wybodaeth. Os byddwch yn penderfynu cael y driniaeth, gofynnir i chi gytuno i gofnodi eich manylion ar gronfa ddata electronig at y diben hwn. Bydd meddyg sy'n gofalu amdanoch yn rhoi eglurhad llawn i chi o ddibenion casglu'r data a pha fanylion a gaiff eu cadw (cedwir yr holl wybodaeth yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data). Gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Os na fyddwch yn cytuno i gofnodi eich manylion ar gronfa ddata electronig, ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag cael y driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl y gallaf eu cael ac a ydynt yn debygol o fod yn barhaol?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Defnyddiodd nifer o astudiaethau ddwyster chwyrnu i benderfynu a oedd y driniaeth yn gweithio'n ddigon da. Roedd hyn yn cynnwys partner gwely'r claf yn asesu chwyrnu'r claf ar raddfa o 0–10, lle roedd 0 yn ddim chwyrnu ac roedd 10 yn chwyrnu a fyddai'n gwneud i'r partner adael yr ystafell. Edrychodd un astudiaeth ar 10 o gleifion gyda mewnblaniadau safonol a 10 o gleifion gyda mewnblaniadau mwy anhyblyg. Pan gawsant eu gwirio 90 diwrnod ar ôl y driniaeth, nid oedd gwahaniaeth sylweddol o ran chwyrnu rhwng y mewnblaniadau a ddefnyddiwyd. Dim ond gan uchafswm o dri phwynt ar y raddfa y gwnaeth y driniaeth wella'r chwyrnu. Dangosodd canlyniadau pum astudiaeth bellach ganlyniadau tebyg. Mewn dwy astudiaeth, y sgorau cyfartalog cyn y driniaeth oedd 7.6 ac 8.5. Nawdeg diwrnod ar ôl y driniaeth, roedd y sgorau cyfartalog yn 3.7 a 5.0, ac ar ôl blwyddyn roedd y sgorau cyfartalog yn 4.0 a 4.4.

Edrychwyd ar dair astudiaeth bellach. Yn y ddwy astudiaeth gyntaf (un o 40 o gleifion a'r llall o 34 o gleifion), roedd y sgôr cyfartalog cyn y driniaeth yn 7.1. Nawdeg diwrnod ar ôl y driniaeth, roedd y sgorau cyfartalog yn y ddwy astudiaeth yn 4.2 a 3.4, ond ar ôl blwyddyn roedd y sgôr cyfartalog wedi gwaethygu i 4.8 yn y ddwy astudiaeth. Edrychodd y drydedd astudiaeth ar 12 o gleifion yn unig a defnyddiodd raddfa o 0 i 100. Dangosodd mai'r sgôr cyfartalog cyn y driniaeth oedd 79. Nawdeg diwrnod ar ôl y driniaeth roedd y sgôr cyfartalog yn 48.

Edrychodd nifer o astudiaethau ar flinder yn ystod y dydd hefyd er mwyn penderfynu a oedd y driniaeth yn gweithio'n ddigon da. Defnyddiodd yr astudiaethau hyn raddfa'n amrywio o 0 (gorau) i 24 (gwaethaf). Mewn dwy astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 120 o gleifion, roedd y sgôr cyfartalog yn 8 cyn y driniaeth, 7.3 ar ôl 90 diwrnod mewn un astudiaeth a 5.2 ar ôl blwyddyn yn yr astudiaeth arall. Mewn tair astudiaeth yn cynnwys 83 o gleifion, roedd gan gleifion sgôr cyfartalog o 8.1 cyn y driniaeth, 5.7 ar ôl 90 diwrnod a 5.2 ar ôl blwyddyn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nod y driniaeth yw lleihau dwyster y chwyrnu, lleihau blinder yn ystod y dydd a gwella boddhad ac ansawdd bywyd i'r claf a'i bartner/phartner gwely.

## Risgiau a phroblemau posibl

Ni nodwyd heintiau ar ôl y driniaeth na chymhlethdodau difrifol.

Mewn rhai cleifion daeth y mewnblaniadau'n rhydd. Digwyddodd hyn mewn pum astudiaeth mewn rhwng 4% a 25% o gleifion. Dangosodd astudiaeth o 20 o gleifion mai dim ond mewn cleifion oedd â mewnblaniadau llai hyblyg y digwyddodd hynny. Digwyddodd hynny mewn 4 allan o 10 o gleifion oedd â mewnblaniadau llai hyblyg ac mewn dim o'r 10 o gleifion oedd â mewnblaniadau safonol.

Edrychodd yr astudiaethau ar boen hefyd, a defnyddiwyd graddfa lle roedd 0 yn ddim poen a 10 yn boen eithafol. Dangoswyd bod poen yn waeth yn syth ar ôl y driniaeth (y sgôr a nodwyd oedd 4.9), ond 90 diwrnod ar ôl y driniaeth, dim ond 0.2 oedd y sgôr.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau posibl cynnwys haint, y mewnblaniadau'n symud neu'n dod yn rhydd, teimlad o gael rhywbeth dieithr yn y geg, gwaedu, ychydig o greithiau a phroblemau posibl â'r llwybr anadlu.

## Rhagor o wybodaeth am chwyrnu

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i’r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy’n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae’n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae canllawiau NICE ar fewnblaniadau taflod feddal ar gyfer apnoea cwsg rhwystrol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG155. Mae NICE wedi cyhoeddi arweiniad hefyd ar abladiad radio-amleddau y daflod feddal ar gyfer chwyrnu, sydd ar gael ar www.nice.org.uk/HTG327*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy Linell Ymateb y GIG (ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y cyfeirnod N1532).*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN: 978-1-4731-7789-5 N1532 1P Nov 07

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2007. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.